

Darganfod: Grawys 2019

A ninnau'n troi tuag at y Pasg a chroeshoeliad ac atgyfodiad Iesu Grist gwahoddwyd nifer o gyfranwyr i'n tywys ar ein taith eleni. Byddwn yn dilyn yn fras yr hanes yn efengyl Mathew. Ac yn llinyn aur sy'n rhedeg drwy'r cyfan bydd 'rhyfeddod' y darganfod yn ganllaw diogel i'n myfyrdodau.

DARGANFYDDIAD RHYFEDDOL

Lle bendigedig yw Cesarea Philipi.

Ger olion yr hen dref mae parc gwledig helaeth yn llawn dyfroedd rhedegog a llynnoedd llonydd. Dywedir mai dyma'r fan lle mae tarddiad yr afon Iorddonen, lle cysegredig i bob Iddew.

Mewn ogof yn y graig mae ffynnon a theml i'r duw natur Pan.

Banias yw enw'r lle heddiw. Yn ymyl yr ogof mae olion teml fawreddog i'r ymerawdwr Awgustws Cesar oedd ei hun yn honni ei fod yn ddwyfol.

Arweiniodd Iesu'r disgyblion i'r fan arbennig yma er mwyn cael cyfle i siarad â nhw ymhell o bwysau'r dyrfa. Yma, ym mhresenoldeb traddodiadau paganaidd, y gwnaeth Pedr y darganfyddiad rhyfeddol.

Gwyddai Iesu fod ei amser gyda'i ddisgyblion yn prinhaus. Gyda phob dydd a phob cam cerddai tua'r groes. Roedd angen arno gael sicrwydd eu bod wedi deall mai ef oedd y Meseia, yr Eneiniog. Pe na baent wedi sylweddoli hynny yna byddai ei holl weinidogaeth yn ofer. Fyddai neb yn gallu cario'i waith ymlaen, neb i gyflwyno'r neges am gariad Duw.

Gallwn ddychmygu ei betruster a'i nerfuswydd wrth ofyn iddynt ddatgan pwy ydoedd ef ym marn y bobl gyffredin. Daeth yr atebion – Ioan Fedyddiwr wedi ei atgyfodi, Elias, Jeremeia neu un o'r proffwydi. Credai'r

Iddewon y byddai Elias yn ymddangos cyn i'r Meseia ei hun ddod. Felly hefyd Jeremeia.

Roedd cymharu Iesu i'r prif broffwydi yn dangos fod y werin yn ei weld fel rhywun mawr ac arwyddocaol yn hanes y genedl, un oedd yn agor y pyrth i Deyrnas Nefoedd – oes aur y Meseia.

dibetrus – 'Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw!'.

Nid un o dduwiau'r byd paganaidd, nid un o dduwiau mawreddog Rhufain fawr ond Mab y Duw byw! Syfrdanwyd ei gyd-ddisgyblion gan ddatganiad gwefreiddiol Pedr. Hwyrach i nifer ohonynt ystyried y posibilrwydd mai

Iesu oedd y Meseia, ei fod yn fwy dwyfol na dynol, ond i Pedr y rhoddwyd y weledigaeth fawr a'r argyhoeddiad i gyhoeddi hynny.

Gallwn deimlo llawenydd a rhyddhad Iesu yn ei ymateb.

Roedd Pedr yn wynfydedig oherwydd fod Duw wedi siarad yn uniongyrchol ag e. Gwyddai fod grym y weledigaeth a sicrwydd yr argyhoeddiad yn ddiogel i gario'r dydd ar yr holl brofiadau tywyll a ddeuai i ran Pedr yn y dyddiau oedd i ddod. Dyma gadernid fyddai'n dal fel y graig ar waethaf pob storm yn yr enaid. Pedr fyddai'n arweinydd diogel i'r eglwys ifanc.

Pedr oedd y cyntaf o lawer i gael gweledigaeth o realiti dwyfoldeb Iesu, o faint a gwerth ei aberth.

Mae Iesu'n dal i ofyn i bob un ohonom ei arddel fel Gwardwr a thystio iddo yn ein cyfnod ni. Profiad personol yw clywed ei lais. Rhaid i bob un ohonom ei dderbyn a'i ddilyn gydag argyhoeddiad fel y gwnaeth Pedr.

Eirlys Gruffydd-Evans



Llyn Banias, gerllaw Cesarea Philipi gyda llyn ogof Pan yn y cefn.
Gan gugganij – CC BY-SA 3.0, <https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=3992796>

'A chwithau,' meddai wrthynt, 'pwy meddwch chi ydwyf fi?'
Atebodd Simon Pedr, 'Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw.'
Dywedodd Iesu wrtho, 'Gwyn dy fyd, Simon fab Jona,
oherwydd nid cig a gwaed a ddatguddiodd byn iti ond fy
Nhad, sydd yn y nefoedd.' Mathew 16:13-18

Yna daeth y cwestiwn tyngedfennol. Tybed a oedd calon Iesu'n curo fymryn yn gyflymach wrth ei ofyn? Pwy oedden **nhw'n** ei feddwl oedd e? Mae'n siŵr fod yna dawelwch llethol am eiliad wrth i bob un ei holi ef ei hun. Yna clywyd llais cyfarwydd yn datgan yn gadarn a